

Bwrdd Cynnwys: cylch gorchwyl

(cymeradwywyd 15 Mawrth 2023, yn weithredol o 1 Ebrill 2023)

Pwrpas

1. Pwyllgor o'r prif Fwrdd yw'r Bwrdd Cynnwys ac mae'n gosod ac yn gorfodi ansawdd a safonau ar gyfer teledu a radio. Mae ganddo Aelodau sy'n cynrychioli pob un o wledydd y DU, ac mae'n cynnwys Aelodau sydd â phrofiad helaeth o ddarlledu. Mae'n gyfrifol am ddeall, dadansoddi a hyrwyddo lleisiau a buddiannau'r gwyliwr, y gwrandawr a'r dinesydd.
2. Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom sefydlu a chynnal Bwrdd Cynnwys (Adran 12 (1)). Pennir swyddogaethau'r Bwrdd Cynnwys gan Fwrdd Ofcom, gan roi sylw penodol i ddymunoldeb sicrhau bod gan y Bwrdd Cynnwys dylanwad sylweddol ar benderfyniadau sy'n ymwneud â materion cynnwys ac sy'n cynnwys ystyried buddiannau gwahanol rannau o'r DU (Adran 13 (3)).

Dyletswyddau

3. Dyletswyddau'r Bwrdd Cynnwys:
 - a. Sicrhau mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau darlledu Ofcom, bod Ofcom yn ymwybodol o wahanol fuddiannau a ffactorau sy'n ymwneud â gwahanol rannau o'r DU (Adran 13 (4)).
 - b. Gyflawni rôl gynghorol i Fwrdd Ofcom, gan ddarparu cyngor ar agweddau sy'n gysylltiedig â chynnwys ar benderfyniadau neu faterion a gedwir i Fwrdd Ofcom.
 - c. Gyflawni rôl gynghori, gan gefnogi'r Weithrediaeth i orfodi a chynnal safonau'r Cod Darlledu a Rheolau Gwasanaeth Rhaglenni Ar-Alw, ac i sicrhau bod y safonau hynny'n cael eu hadolygu. Gall aelodau roi barn gynghorol ar ymchwiliadau o dan weithdrefnau cyhoeddedig Ofcom.
 - d. Chwarae rhan wrth osod sanctsiynau am dorri'r Cod Darlledu'n ddifrifol, o dan weithdrefnau cyhoeddedig Ofcom.

Aelodaeth

4. Bydd aelodaeth y Bwrdd Cynnwys yn uchafswm o 19 o bobl, gyda digon o sgiliau a phrofiad i gyflawni ei ddyletswyddau ac i gynrychioli ac adlewyrchu amrywiaeth lawn y DU yn effeithiol. Bydd yn cael ei gadeirio gan Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom a bydd o leiaf un Aelod arall o'r Bwrdd Cynnwys yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom.
5. Bydd gweddill Aelodau'r Bwrdd Cynnwys yn Aelodau Anweithredol yn bennaf (gan gynnwys Aelodau Anweithredol sy'n cynrychioli pob un o Genhedloedd y Deyrnas Unedig) a gallant gynnwys swyddogion gweithredol Ofcom.

Ysgrifennydd

6. Bydd Ysgrifennydd y Gorfforaeth, neu ei enwebai, yn gweithredu fel ysgrifennydd y Bwrdd Cynnwys a bydd yn sicrhau ei fod yn derbyn gwybodaeth a phapurau mewn modd amserol er mwyn galluogi ystyriaeth lawn a phriodol i faterion.

Cworwm

7. Pum aelod fydd yn y cworwm, gyda mwyafrif yn Aelodau Anweithredol.

Amllder a chynnal cyfarfodydd

8. Fel arfer, bydd 6 cyfarfod o'r Bwrdd Cynnwys y flwyddyn. Cynhelir cyfarfodydd yn ôl yr angen ar gais Cadeirydd y Bwrdd Cynnwys.
9. Bydd cydweithwyr gweithredol perthnasol yn mynychu'r Bwrdd Cynnwys ar gyfer eitemau penodol ac, yn ôl yr angen, unrhyw arsylwr. Gall Cadeirydd a Phrif Weithredwr Ofcom hefyd fynychu cyfarfodydd.
10. Caniateir presenoldeb aelodau dros y ffôn neu gyswllt fideo at ddibenion pennu cworwm.
11. Yn absenoldeb Cadeirydd y Bwrdd Cynnwys, bydd yr Aelodau sy'n weddill sy'n bresennol yn ethol un o'u plith NEU bydd ef neu hi'n enwebu un o'r Aelodau sy'n weddill sy'n bresennol i Gadeirio'r cyfarfod.

Hysbysiad o gyfarfodydd

12. Bydd cyfarfodydd y Bwrdd Cynnwys yn cael eu galw gan Ysgrifennydd y Bwrdd Cynnwys ar gais y Cadeirydd neu unrhyw un o'i Aelodau.
13. Oni chytunir fel arall, bydd hysbysiad o bob cyfarfod yn cadarnhau lleoliad, amser a dyddiad y cyfarfod, ynghyd ag agenda o eitemau i'w trafod, yn cael ei anfon ymlaen at bob aelod o'r Bwrdd Cynnwys ac unrhyw berson arall y mae'n ofynnol iddo fynychu o leiaf bum diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod. Bydd papurau ategol yn cael eu hanfon at Aelodau'r Byrddau Cynnwys ac at fynychwyr eraill, yn ôl yr angen, ar yr un pryd.

Cofnodion cyfarfodydd

14. Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd Cynnwys yn dosbarthu cofnodion y cyfarfodydd i Aelodau'r Bwrdd Cynnwys gyda chymeradwyaeth y Cadeirydd.
15. Bydd yr Ysgrifennydd yn cymryd nodyn llawn o gyfarfodydd ac yn cadw cofnodion priodol.

Cyfrifoldebau adrodd

16. Bydd y Bwrdd Cynnwys yn adrodd yn uniongyrchol i Fwrdd Ofcom drwy Gadeirydd y Bwrdd Cynnwys. Bydd Bwrdd Ofcom yn adolygu'r cylch gorchwyl hwn o bryd i'w gilydd.

Materion eraill

17. Cael mynediad at adnoddau digonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau, gan gynnwys mynediad i'r tîm Llywodraethu am gyngor a chymorth yn ôl yr angen.
18. Cael hyfforddiant priodol ac amserol, ar ffurf rhaglen sefydlu ar gyfer Aelodau newydd ac yn barhaus i bob Aelod.
19. Sicrhau bod gwerthusiad cyfnodol o berfformiad y Bwrdd Cynnwys yn cael ei gynnal.
20. O leiaf bob blwyddyn, adolygu ei gyfansoddiad a'i Chylch Gorchwyl i sicrhau ei fod yn gweithredu mor effeithiol â phosibl ac argymell unrhyw newidiadau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol i'r Bwrdd i'w cymeradwyo fel rhan o gylch adolygu effeithiolrwydd blynyddol y Bwrdd a'r Pwyllgor y Bwrdd.

Awdurdod

21. Bydd Bwrdd Ofcom a Chadeirydd y Bwrdd Cynnwys yn penderfynu ar y materion cynnwys y ceisir cyngor arnynt, ar ôl ymgynghori â'r Weithrediaeth. Bydd hyn yn cynnwys cytuno ar gynllun blynyddol ar gyfer darparu cyngor y Bwrdd Cynnwys yng ngoleuni'r materion y

disgwylir i Fwrdd Ofcom eu hystyried yn ystod y flwyddyn honno. Bydd hefyd yn cynnwys cytuno fesul achos wrth i faterion godi y bydd y Bwrdd Cynnwys yn darparu cyngor i'r Bwrdd ar fater penodol.

22. Bydd Bwrdd Ofcom a Chadeirydd y Bwrdd Cynnwys yn penderfynu ar y ffordd y ceir cyngor gan y Bwrdd Cynnwys a dylai adlewyrchu natur y mater. Yn ogystal, gall Aelodau gyflawni rôl gynghorol i'r Weithrediaeth ar benderfyniadau neu faterion arwyddocaol eraill sy'n gysylltiedig â chynnwys y mae'r Bwrdd wedi'u dirprwyo i'r Weithrediaeth. Cytunir ar y materion hyn gan Gadeirydd y Bwrdd Cynnwys a'r Weithrediaeth.
23. Ymgymryd ag unrhyw weithgaredd o fewn ei Gylch Gorchwyl.
24. Gofyn am bresenoldeb unrhyw Gydweithiwr Ofcom mewn cyfarfod o'r Bwrdd Cynnwys a/neu geisio unrhyw wybodaeth y mae ei hangen gan unrhyw weithiwr o'r cwmni er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.

Dyddiad cymeradwyo

Mawrth 2023

Dyddiad yr adolygiad nesaf

Mawrth 2024